

DATGANIAD POLISI AMGYLCHEDDOL

Trosolwg

Mae Music Theatre Wales yn credu bod gan bawb ran i'w chwarae yn y dasg o warchod ein planed. Rydym yn ymwybodol o'r ffaith fod gennym ni, fel Cwmni sy'n cyflwyno straeon newydd i gynulleidfaoedd a chymunedau, rôl i'w chwarae wrth helpu i newid agweddau a dulliau o fynd i'r afael â chynaliadwyedd amgylcheddol a newid hinsawdd. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein holl waith yn cael ei gyflawni gan gadw'r cyfrifoldeb hwn mewn golwg.

Cenhadaeth MTW yw gweithio gydag artistiaid a chymunedau sydd wedi eu heithrio o fynd yr opera i greu gwaith yn eu delw eu hunain, gan gysylltu'r personol a'r lleol gyda'r byd ehangach. Rydym yn creu mathau newydd o opera, ac yn eu cyflwyno mewn dulliau anghyffredin ac yn y lleoliadau mwyaf perthnasol. Gyda'r nodau hyn o'r cysylltiad rhwng pobl a lle, a'n bwriad i gyflwyno straeon sy'n berthnasol a chyfredol, rhaid yn awr wreiddio'r naratif o amgylch newid hinsawdd yn ddwfn yn ein holl waith ac yn y modd rydym yn rhedeg ein sefydliad.

Ein hymrwymiaidau

Ers 2020 rydym wedi newid ein dull o weithio, a'r gwaith rydym yn ei greu. Yn sgil hynny daeth her ychwanegol i ffurfio Polisi Amgylcheddol, gan nad oes gennym bellach fodel gweithredu sefydlog, ac rydym yn ceisio dod yn gyfarwydd â'r dulliau newydd a ddefnyddiwn i greu a chyflwyno gwaith. Fodd bynnag, gwyddom fod ein gwaith digidol, ynghyd â'n gweithgareddau dan arweiniad y gymuned, yn gadael eu hôl troed carbon eu hunain. Gan gadw hyn mewn golwg, mae Cynllun Busnes MTW am y cyfnod 5-mllynedd o 2023 hyd 2027 yn ymrwymo i 8 pwynt gweithredu sydd â'r nod o hyrwyddo ac ymgysylltu ein gweithwyr, ein cynulleidfaoedd a'n cymunedau â realiti pwysig newid hinsawdd:

1. Parhau i werthuso ac addasu'r datganiad polisi hwn, gan arwain at gynllun gweithredu sylfaenol erbyn diwedd 2023
2. Cynnwys "Cymalau Gwyrdd" ym mhob cytundeb, gan esbonio i'r holl staff (p'un ai'n llawrydd, ar gyflog neu'n gwirfoddoli) beth yw ein disgwyliadau ohonynt hwy wrth gefnogi ein nodau amgylcheddol
3. Darparu hyfforddiant ar Lythrennedd Carbon ar gyfer y staff craidd a staff prosiect allweddol
4. Cyflawni ein cynhyrchiad cyntaf yn unol â lefel "Llinell Sylfaen" Llyfr Gwyrdd y Theatr erbyn diwedd 2024
5. Cynnal archwiliad trylwyr o'n heffaith amgylcheddol erbyn mis Mawrth 2025
6. Creu Polisi Cynaliadwyedd Amgylcheddol manwl a dynamig, a chynllun gweithredu llawn erbyn mis Mawrth 2026
7. Cyflawni ein cynhyrchiad cyntaf yn unol â lefel "Canolradd" Llyfr Gwyrdd y Theatr erbyn diwedd 2027
8. Cyrraedd targed Llywodraeth Cymru o fod yn garbon niwtral erbyn 2030